**Suzy Davies AC**

**Comisiynydd y Cynulliad**
**Assembly Commissioner**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

30 Tachwedd 2016

Annwyl Simon

Ysgrifennaf atoch yn dilyn fy llythyr ar 4 Tachwedd ynghylch Adroddiad eich Pwyllgor yn craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2017-2018. Fel y gofynnwyd yn Argymhelliad 2, rydym bellach mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth i chi ynghylch canlyniad y broses cynllunio capasiti (gweler y manylion yn yr atodiad ynghlwm).

Os hoffai eich Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach, rhowch wybod i mi.

Yn gywir

Suzy Davies

cc Comisiynwyr y Cynulliad; Claire Clancy; Nia Morgan

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn • Tel: 0300 200 6227
Ffacs • Fax: 029 2089 8117
E-bost• Email: Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
Ysgrifenyddiaeth Comisiwn y Cynulliad/Assembly Commission Secretariat

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Atodiad

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2017-2018

Ymateb Comisiwn y Cynulliad i Argymhelliad 2

*Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod angen adnoddau ychwanegol i gefnogi blaenoriaethau'r Pumed Cynulliad wrth iddo symud ymlaen, ond er mwyn sicrhau tryloywder a chynnig eglurder, argymhellir y dylid darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sut y defnyddiwyd yr adnoddau a ddyrannwyd yn dilyn yr ymarfer cynllunio capasiti manwl.*

Diben gwaith cynllunio capasiti blynyddol y Comisiwn yw ystyried a oes gan y Comisiwn adnoddau digonol lle bo angen i sicrhau bod ei amcanion strategol yn cael eu cyflawni. Ar ddechrau'r broses, cynhelir adolygiad trylwyr gan bob maes gwasanaeth o'r heriau sy'n eu hwynebu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod a thu hwnt. Yna, bydd pob maes gwasanaeth yn asesu ac yn nodi a oes unrhyw anghenion y gellid eu diwallu gydag adnoddau sydd eisoes ar gael, ac a ydyw'r adnoddau ychwanegol yn angenrheidiol i gynnal gwasanaeth o ansawdd uchel fel sy'n briodol i Aelodau. Yr hydref hwn, lle'r oedd materion yn peri pryder neu fod anghenion ychwanegol wedi'u nodi, dechreuwyd cynnal gwaith craffu ar ofynion swyddi ychwanegol ar lefel y maes gwasanaeth ym mhob Cyfarwyddiaeth, cyn eu rhoi gerbron y Bwrdd Rheoli i'w trafod. Neilltuwyd dwy sesiwn gan y Bwrdd Rheoli i adolygu a herio cynlluniau gwasanaeth a chynlluniau capasiti a baratowyd gan bob Cyfarwyddiaeth.

O ganlyniad i'r ymarfer cynllunio capasiti, nodwyd anghenion newydd o ran adnoddau. Mae'r anghenion ychwanegol hyn wedi codi am y rhesymau canlynol:

- cynnydd yn nifer y pwyllgorau a'r wythnos fusnes estynedig;
- blaenoriaethau'r Comisiwn a'r Llywydd newydd, gan gynnwys sefydlu senedd ieuenctid newydd a gwella ein gwasanaethau newyddion a gwybodaeth yn ddigidol;

- rhagor o bwyslais ar ymgysylltu mewn pwyllgorau;
- rhaglen FySenedd sydd â'r nod o greu senedd agored, ddigidol o'r radd flaenaf trwy wella'r modd yr ydym yn rheoli ac yn defnyddio gwybodaeth, gwasanaethu Aelodau ac ymgysylltu gyda'n holl ddefnyddwyr drwy gyfrwng technoleg. Bydd hyn yn cael effaith ar ein harferion gwaith a'r sgiliau ar draws y sefydliad;
- newidiadau cyfansoddiadol yn sgil Bil Cymru a Brexit;
- heriau cynyddol i'r Gwasanaeth Diogelwch yn sgil bygythiadau i ddiogelwch a strwythur ac amserlen newydd y pwyllgorau – nododd adolygiad cynhwysfawr yr angen am strwythur newydd a swyddi ychwanegol, ac y bydd y gost yn cael ei gwrthbwyso i ryw raddau trwy lai o weithio goramser a chostau asiantaeth;
- pwysau ar y gwasanaeth Ystadau i ddarparu ar gyfer nifer y pwyllgorau, gan gynnwys gwaith adnewyddu sylweddol, a dechrau cynllunio ar gyfer anghenion llety yn y tymor hir; a
- rhagor o weithgarwch dwyieithog yn effeithio'n arbennig ar anghenion cyfieithu ar y pryd.

Gwnaed newidiadau'n fewnol lle'r oedd hynny'n bosibl, a pharheir i wneud hynny i helpu diwallu pwysau o ran staffio a sgiliau, ond mae'r galw am adnoddau ychwanegol yn dal i fod. Mae’r adnoddau ychwanegol ar gyfer Pwyllgorau, Cyfathrebu a Thrawsnewid Strategol i gyd yn deillio’n rhannol o’r newidiadau cyfansoddiadol o ganlyniad i Fil Cymru a’r gwaith sy’n gysylltiedig â gadael yr Undeb Ewropeaidd. Yn gyffredinol, cytunwyd y dylid rhoi blaenoriaeth i'r swyddi newydd ychwanegol a ganlyn yn ystod y flwyddyn i ddod:

- Pwyllgorau: 6 swydd ar raddau gwahanol, ynghyd ag 1 swydd dros dro i gael ei gwneud yn barhaol
- Cyfathrebu: Hyd at 9 o swyddi, parhaol a dros dro, ar raddau gwahanol, gan gynnwys Pennaeth Hyrwyddo Strategol, Pennaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rheolwyr newyddion/cyfryngau
- Trawsnewid Strategol: 1 swydd
- Diogelwch: Hyd at 12 swydd
- Ystadau: 2 swydd newydd dros dro
- TGCh: 1 swydd i gefnogi swyddfeydd ACau Gogledd Cymru, ac 1 swydd ar gyfer diogelwch seiber.

- Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi: 2 gyfieithydd ar y pryd ychwanegol, ac 1 swydd dros dro i'w gwneud yn barhaol
- Adnoddau Dynol: 1 swydd ar gyfer gwasanaethau'r gweithlu a recriwtio
- Llywodraethu: 1 swydd dros dro i'w gwneud yn barhaol

Mae'r broses o gynllunio capasiti yn gosod fframwaith ar gyfer rhagor o staffio yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'n golygu y cymeradwyir recriwtio ar gyfer swyddi unigol, ac mae'n nodi meysydd a allai fod â rhagor o anghenion yn nes ymlaen yn y flwyddyn yn unol â'i flaenoriaethau. Paratoir dogfen awdurdodi proses recriwtio a fydd yn gosod yr achos busnes yn llawn, a gaiff ei ystyried maes o law gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau. Bydd y Bwrdd yn asesu pob achos yn unol â blaenoriaethau adnoddau eraill, gan gynnwys ffyrdd eraill o fuddsoddi megis TGCh neu wario ar yr ystâd.

**Ystyriaethau ar hyn o bryd**

Nododd dogfen y gyllideb ar gyfer 2017-18: "Mae'r gyllideb wedi cael ei pharatoi ar y rhagdybiaeth y bydd y Cynulliad yn parhau gyda 60 o Aelodau. Os, yn ystod tymor y Cynulliad, y daw i'r amlwg bod angen i'r Comisiwn gynllunio ar gyfer cynnydd ym maint y Cynulliad, yna byddai angen gwneud darpariaethau newydd o ran y gyllideb." Ar ôl i'r gyllideb gael ei pharatoi, ac ar ôl i'r gwaith craffu gael ei gynnal arni, cytunodd y Comisiwn ar gynlluniau newydd i wneud ein senedd yn addas ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys mynd i'r afael â gwaith ar gapasiti'r Cynulliad. Mae'n debyg y bydd angen adnoddau ychwanegol yn y dyfodol, gan gynnwys capasiti cyfreithiol, ar gyfer y gwaith hwn a materion eraill sy'n debygol o ddeillio o Fil Cymru os caiff ei basio. Megis dechrau y mae'r gwaith hwn, felly nid yw'r gwaith cynllunio capasiti priodol wedi'i gynnwys yn y broses a gwblhawyd yn ddiweddar. Bydd y Comisiwn yn ystyried y goblygiadau ariannol ac yn eu rhoi gerbron y Cynulliad i'w hystyried ar yr adeg briodol - mewn cyllideb atodol efallai yn ystod 2017-18.

Byddwn yn ystyried ein capasiti o ran dwyieithrwydd yn gyson yn unol â'r uchelgeisiau yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd.

Caiff adolygiad cynhwysfawr o'r digwyddiadau a gynhelir ar ystâd y Cynulliad ei gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd. Yn sgil hyn, disgwylir nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd drwy wneud ein prosesau'n fwy rhwydd a symleiddio trefniadau ar gyfer cefnogi digwyddiadau.

**Comisiwn y Cynulliad**
**Tachwedd 2016**